

Creodd pob £1 o arian cyhoeddus a fuddsoddwyd yn IBERS werth £12.18 o fudd i economi'r DU.



Y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol a gyllidir gan y BBSRC ar gost £6.8m –agorodd yn 2012



Amrywiadau IBERS

65%
o'r ceirch a ddefnyddir yn y DU

65% o'r ceirch a ddefnyddir yn y DU Gwerth marchnad – £123 miliwn

Mae'r amrywiadau o geirch a ddatblygwyd gan IBERS yn cyfrif am 65% o'r holl geirch a ddefnyddir yn y DU bob blwyddyn.

Defnyddir ceirch yn eang ar gyfer bwyd i bobl ac anifeiliaid ac mae'r farchnad yn tyfu tua 5% y flwyddyn. Amcangyfrifir fod cyfraniad IBERS i farchnad ceirch y DU wedi creu gwerth ychwanegol gros o £19 miliwn i economi'r DU yn 2012/13 gan gynnal dros 800 o swyddi.



Cynhyrchiant Graddedigion

Bob blwyddyn mae graddedigion IBERS yn mynd â'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu drwy eu hastudiaethau gyda nhw i'r gweithle, gan helpu i wella cynhyrchiant diwydiant y DU.

Gellir mesur y budd hwn o ran cynhyrchiant drwy'r incwm ychwanegol mae graddedigion yn ei ennill oherwydd eu gradd. Amcangyfrifwyd fod y gwelliant hwn o ran cynhyrchiant wedi cyfrannu dros £23 miliwn o werth gros ychwanegol i economi'r DU yn 2012/13.

Masnacheiddio

£6.3 miliwn o werthiant hadau £1.3 miliwn o ymchwil diwydiannol

Mae IBERS wedi ffurfio cysylltiadau cryf dros gyfnod hir gydag amrywiaeth o bartneriaid diwydiannol sy'n ei alluogi i wneud cyfraniad sylfaenol i gefnogi cynhyrchiant y sector bwyd-amaeth yn y DU. Yn 2012/13 creodd y gweithgaredd masnacheiddio dros **£14 miliwn o werth gros ychwanegol i economi'r DU gan gynnal yn agos i 250 o swyddi.**

5 cwmni deillio gweithredol 60 o gyflogeion £7.6 miliwn o drosiant



IBERS
Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
Prifysgol Aberystwyth Adeilad Stapledon Campws Gogerddan Aberystwyth SY23 3EE

Ymholiadau ffôn: 01970 622946 epost: ibestaff@aber.ac.uk web: www.aber.ac.uk

Mae IBERS yn derbyn cyllid ymchwil strategol oddi wrth y BBSRC i gefnogi ymchwil tymor hir â chenhadaeth, ac mae'n aelod o'r Athrofydd Biowyddoniaeth Cenedlaethol. Mae IBERS hefyd yn cael cymorth ariannol oddi wrth Llywodraeth Cymru, DEFRA a'r Undeb Ewropeaidd.




Effaith IBERS

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences



Adroddiad annibynnol i Brifysgol Aberystwyth gan BIGGAR Economics



2013
THE AWARDS
AWARD WINNER
OUTSTANDING CONTRIBUTION TO
INNOVATION AND TECHNOLOGY

IBERS yn cael effaith

Mae gwyddonwyr IBERS yn cynnal ymchwil biolegol sylfaenol a chymwysedig i fynd i'r afael â rhai o'r heriau pwysicaf sy'n wynebu'r ddynoliaeth.

Caiff y gweithgarwch hwn effaith ar unwaith ar economi'r DU drwy waith dydd i ddydd IBERS, ei staff a'i fyfyrwyr. Mae'r gweithgarwch yn creu amrywiaeth o ganlyniadau ymchwil, ac mae'r masnachu'n creu cyfoeth ac yn cynnal cyflogaeth drwy'r DU gyfan. Caiff canlyniadau ymchwil eu defnyddio hefyd i gynorthwyo gweithgarwch addysgu yn IBERS, sy'n cyfrannu at gynhyrchiant graddedigion IBERS a'r cwmnïau sy'n eu cyflogi.


Gyda'i gilydd mae'r gweithgarwch hwn yn helpu i sicrhau gwelliannau tymor hir yng nghynhyrchiant amaethyddiaeth y DU ac amrywiaeth o fuddion ehangach, anafesuradwy o fewn y DU a thramor.



Effaith Economaidd IBERS

1,551 o fyfyrwyr	Incwm o £31.3 miliwn	358 o staff
Yn 2012/13 creodd IBERS fudd economaidd â chyfanswm o £365 miliwn o werth ychwanegol gros i economi'r DU gan gefnogi'n agos i 2,450 o swyddi.		
Creodd pob £1 o arian cyhoeddus a fuddsoddwyd yn IBERS werth £12.18 o fudd i economi'r DU		

Tarddiad yr effaith



Mae IBERS hefyd yn...

- Gwneud cyfraniad economaidd lleol sylweddol
- Cefnogi cystadleurwydd y sector bwyd-amaeth yn y DU
- Gwella diogelwch bwyd yn y DU a thramor
- Creu buddion iechyd dynol yn y DU ac yn rhyngwladol
- Galluogi datblygiad rhyngwladol
- Helpu i leihau allyriadau carbon diwydiant amaeth y DU
- Cyfrannu at well polisi cyhoeddus



Cynhyrchiant Amaethyddol

Mae amrywiadau IBERS yn cyfrif am 14% o gyfanswm y mewnbwn maethol sydd ei angen ar y 32.6 miliwn o wartheg a defaid a gaiff eu magu yn y DU bob blwyddyn.

Mae'r twf yn y boblogaeth fyd-eang ac incwm gwario cynyddol y byd datblygol yn creu pwysau na welwyd eu tebyg ar y galw byd-eang am fwyd, a bydd y pwysau hyn yn parhau. Mae tir amaethyddol yn adnodd cyfyngedig felly er mwyn osgoi cynnydd anghynladwy mewn prisiau bwyd mae'n hanfodol fod y DU yn datblygu i fod yn effeithlon wrth gynhyrchu a defnyddio bwyd.

Mae cyfraniad IBERS yn hanfodol i gynorthwyo'r gwaith hwn. Drwy gyfuno arbenigedd byd-eang mewn bridio planhigion gyda dealltwriaeth ddofn o'r ffordd y mae anifeiliaid yn defnyddio'r bwyd maen nhw'n ei fwyta mae IBERS wedi gallu datblygu amrywiadau porthiant sy'n gwella perfformiad da byw. Yn sgil cysylltiadau sydd wedi'u hen sefydlu â datblygwyr hadau masnachol, mae'r amrywiadau hyn wedi'u mabwysiadu'n eang gan ffermwyr glaswelltir ar draws y DU ac Iwerddon, gan arwain at welliannau sylweddol a chyson mewn cynhyrchiant da byw.

